Diwrnod
Ymwybyddiaeth o Lyncu

Dysffagia: Diagnosis anodd ei lyncu

Dysffagia yw'r term meddygol am anawsterau llyncu. Mae rhai pobl gyda dysffagia yn cael anhawster wrth lyncu bwydydd neu hylifau penodol, tra na all eraill lyncu o gwbl.

Arwyddion a symptomau dysffagia

- Cymryd amser maith i gnoi
- Bwyd yn mynd yn sownd yn y gwddf
- Newid yn y llais yn cynnwys siarad drwy'r trwyn neu siarad 'gwlyb'
- Anhawster cnoi neu reoli bwyd yn y geg
- Peswch neu dagu wrth lyncu
- Newidiadau mewn arferion bwyta, er enghraifft, bwyta'n araf neu osgoi prydau'n llwyr
- Colli pwysau sylweddol, heb fwriadu
- Heintiau mynych ar y frest neu niwmonia
- Bwyd yn y trwyn
- Gwendid cyffredinol, newid amlwg yn statws y meddwl ac effeithiau cyffredinol colli nerth

Am fwy o wybodaeth, ewch i www.rcslt.org

Gwir Lais | Therapi lleferydd ac iaith yn trawsnewid bywydau™

COLEG BRENHINOL THERAPYDDION IAITH A LLEFERYDD